**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**10 MAI 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 10 Mai 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Carol Ellis (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Andy Dunbobbin, Gladys Healey, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Kevin Hughes, Rita Johnson, Dave Mackie, Hilary McGuill, Ian Smith, a Martin White

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr Dave Hughes ar ran David Wisinger, a Paul Johnson ar ran Mike Lowe

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Patrick Heesom

**YMDDIHEURIADAU:** Uwch Reolwr, Plant a'r Gweithlu

**CYFRANWYR:** Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu, Swyddog Cwynion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Rheolwr Comisiynu. (Cofnod rhif 5) Ann Woods, Prif Swyddog, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Y Fflint

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**1. PENODI CADEIRYDD**

Dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Annibynnol. Gan y penodwyd y Cynghorydd Carol Ellis i'r rôl hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Cynghorydd Carol Ellis fel Cadeirydd y Pwyllgor.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cynghorydd Cindy Hinds y Cynghorydd Gladys Healey fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin.

Ar ôl cynnal pleidlais penodwyd y Cynghorydd Gladys Healey fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Gladys Healey fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

4. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2018.

Cywirdeb

Tudalen 7, eitem 54: Dywedodd y Cynghorydd Marion Bateman bod ei hymweliad â Chroes Atti wedi bod yn un cadarnhaol a gofynnodd i hynny gael ei gofnodi yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL Y TRYDYDD SECTOR**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad am adolygiad blynyddol o weithgarwch gofal cymdeithasol a gynhaliwyd gan y Trydydd Sector yn Sir y Fflint. Dywedodd bod yr adroddiad yn manylu ar waith diweddar a gynhaliwyd i adolygu gwasanaethau a gomisiynwyd drwy'r Trydydd Sector ac yn darparu trosolwg o'r ystod eang o wasanaethau a gefnogir gan y Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar y dull gwaith a ddefnyddir i gyd-gynhyrchu gwasanaethau newydd ac arloesol gan gynnwys y gwasanaeth anabledd a fyddai'n cael ei gaffael dros y misoedd nesaf a'r gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at brif ystyriaethau'r adroddiad a dywedodd bod gan Sir y Fflint sector gwirfoddol / trydydd sector ffyniannus sy'n darparu cefnogaeth a gwasanaethau i breswylwyr Sir y Fflint. Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi gweld datblygiad pellach mewn gwasanaethau i sicrhau bod dyletswyddau o fewn y Ddeddf yn cael eu cyflawni.

Dywedodd y Prif Swyddog bod Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Y Fflint yn sefydliad ymbarél a oedd yn cefnogi dros 1200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a'i fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o bartneriaethau lleol a rhanbarthol. Fe gyflwynodd Ann Woods, Prif Swyddog FLVC, a'i gwahodd i roi trosolwg o'r gefnogaeth a ddarperir i'r Cyngor gan FLVC i brosiectau a datblygiadau.

Dywedodd Mrs Woods bod FLVC yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Statudol a'r Trydydd Sector i hyrwyddo, cefnogi a datblygu dulliau gweithio aml-asiantaeth i ddarparu Gwasanaeth Cyhoeddus. Dosbarthodd bapur a oedd yn darparu rhai enghreifftiau o'r mentrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr oedd y Cyngor ac FLVC yn cydweithio arnynt.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Cindy Hinds, dywedodd Mrs Woods mai rôl yr Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd cysylltu â'r gymuned leol a chysylltu unigolion â gwasanaethau.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill a fyddai modd cyfeirio pobl at wasanaethau'n electronig trwy ap sy'n gysylltiedig â gwefan Sir y Fflint. Cytunodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod hyn yn rhywbeth i'w ystyried. Dywedodd y Prif Swyddog (FLVC) bod gwefannau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a DEWIS yn ddwy fenter gyfeirio ddefnyddiol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at baragraff 1.10 yr adroddiad yn ymwneud â bwriad y Cyngor i sefydlu proses o gyd-gynhyrchu ar gyfer datblygu gwasanaeth a gofynnodd a fyddai newid i broses dendro yn arwain at golli gwasanaethau. Esboniodd y Rheolwr Comisiynu na fyddai unrhyw wasanaethau'n cael eu colli, ond, mae'n bosibl y byddai newid yn y ffordd y darperir gwasanaethau anabledd.

Rhoddodd y Cynghorydd Hughes sylwadau hefyd am gyllid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr a gofynnodd a oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r cyllid a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau. Er na allai roi sicrwydd hirdymor ynglŷn â chyllid, dyweodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) nad oedd unrhyw ostyngiadau pellach yn yr arfaeth i gyllid gan yr Awdurdod. Cadarnhaodd yr Uwch-Reolwr Diogelu a Chomisiynu y byddai cyllid gan BIPBC yn parhau am 18 mis arall.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at baragraff 1.12 yr adroddiad yn ymwneud â'r contract eiriolaeth rhanbarthol a gofynnodd beth fyddai'n digwydd yn dilyn y flwyddyn o estyniad. Dywedodd y Rheolwr Comisiynu y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau ac mae'n debyg y byddai ar ôl-troed rhanbarthol.

Rhoddodd y Cadeirydd sylwadau am y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a'r cyfrifoldebau a osodir ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ond dywedodd nad oedd unrhyw adnoddau ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau.

Dywedodd y Rheolwr Comisiynu bod y gofynion newydd i gynnal adolygiad blynyddol o bob gofalwr yn creu mwy o alw a bod y Grŵp Strategaeth Gofalwyr yn gweithio i sicrhau bod y gyllideb sydd ar gael yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau bosibl i ddiwallu gofynion y Ddeddf.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru wedi sicrhau cyllid sylweddol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y gweithgareddau gofal cymdeithasol sy'n cael eu darparu yn y trydydd sector yn Sir y Fflint yn cael eu nodi; a

(b) Bod cyfraniad gwerthfawr y Trydydd Sector i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau i'r Sector Gofal Cymdeithasol yn cael ei gydnabod.

## 6. CANMOLIAETH, SYLWADAU A CHWYNION

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad ar yr Adroddiad Blynyddol ar Weithdrefn Gwynion a Chanmoliaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a hysbysodd bod canran y cwynion gan oedolion am y gwasanaethau a dderbyniwyd wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol er bod nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu. Esboniodd y Prif Swyddog bod yr holl gwynion yn cael eu harchwilio a'u defnyddio i wella'r ddau wasanaeth fel rhan o broses 'gwersi a ddysgwyd'. Gwahoddodd y Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol at y prif ystyriaethau, fel y manylir yn yr adroddiad, sy'n ymwneud â chwynion a dderbyniwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Eglurodd fod crynodeb o gwynion ar draws y ddau wasanaeth wedi eu hatodi at yr adroddiad.

Cynghorodd y Swyddog Cwynion hefyd bod Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi derbyn 204 o ganmoliaethau yn ystod y flwyddyn a oedd yn swm mwy na'r flwyddyn flaenorol a bod Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant wedi derbyn 82 o ganmoliaethau yn ystod y flwyddyn gan deuluoedd a'r Llysoedd. Roedd crynodeb o'r canmoliaethau a dderbyniwyd wedi'u hatodi wrth yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog Cwynion bod ymateb i gwynion yn brydlon yn fater a fyddai'n cael ei godi eto gyda rheolwyr yng nghyfarfod mis Mai mewn ymateb i'r gostyngiad mewn amseroedd ymateb gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Dywedodd y Cynghorydd Hilary McGuill bod nifer o'r cwynion yn ymwneud â'r angen am "well" cyfathrebu ag unigolion a gofynnodd sut y byddai'r Gwasanaeth yn ceisio gwella hyn. Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd y Gwasanaeth yn hunanfodlon a dywedodd bod asiantaethau partner hefyd yn gysylltiedig â darparu gwasanaeth. Dywedodd ei fod yn cydnabod yr angen i geisio gwella dulliau cyfathrebu ag unigolion.

Dywedodd y Cynghorydd Kevin Hughes bod rhai o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymddangos i fod yn yn gwynion lluosog gan yr un person. Cadarnhaodd y Swyddog Cwynion nad oedd hyn yn wir.

Holodd y Cynghorydd Marion Bateman ynglŷn â'r terfyn amser ar gyfer ymdrin â chwynion. Esboniodd y Swyddog Cwynion y byddai'r rhan fwyaf yn cael eu datrys cyn pen 10 diwrnod er bod rhai cwynion yn cymryd mwy o amser i'w datrys.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Ian Smith, cytunwyd y byddai rhestr o bob acronym a ddefnyddir mewn adroddiadau i'r Pwyllgor yn cael eu darparu i Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hilary McGuill, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu nad oedd unrhyw gwynion wedi cael eu derbyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant mewn cysylltiad ag Adolygiad

Achos Difrifol.  Rhoddodd sylwadau am ddysgu oddi wrth adolygiadau diogelu rhanbarthol ac adolygiadau ymarfer plant trawsffiniol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi effeithiolrwydd y drefn gwynion a bod gwersi'n cael eu dysgu i wella darpariaeth y gwasanaeth.

## 7. YMWELIADAU ROTA

Adroddodd y Cynghorydd Kevin Hughes am ei ymweliad ag AROSFA. Dywedodd bod ei ymweliad wedi bod yn gadarnhaol a'i fod wedi ei blesio â safon uchel y gofal a ddarparwyd gan staff.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r wybodaeth.

## 8. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, cyfeiriodd yr Hwylusydd at yr eitemau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor a gynhelir ar 14 Mehefin a thynnodd sylw at yr ymweliad gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.  Gofynnodd i Aelodau anfon unrhyw gwestiynau penodol y dymunant eu codi gyda'r cynrychiolydd ati erbyn dydd Gwener 18 Mai.

Yn dilyn awgrym gan y Cadeirydd, cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o Gymuned L'Arche i fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i waith.   .

Cytunwyd hefyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned i fynychu cyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ar 31 Ionawr 2019.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diweddaru'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn unol â hynny;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

(c) Gwahodd cynrychiolwyr o Gymuned L'Arche Sir y Fflint i fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u gwaith.

(d) Gwahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned i fynychu cyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ar 31 Ionawr 2019.

## 9. <u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.20 pm)

..................................................

**Cadeirydd**